NewsLine Ion 2013 Rhifyn 118

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerffili.gov.uk




# Dwywaith yr hapusrwydd ar gyfer Caerffili!

**Mae dwywaith yr hapusrwydd yn dod ar gyfer trigolion Caerffili a'r ardaloedd cyfagos wrth i ddau brosiect datblygiad cyffrous aml filiwn sy'n cyrraedd ei chyfnod nesaf.**

Mae gweithfeydd nawr yn cael ei hymgymryd ar y datblygiad cyffrous newydd hwn a fydd yn arwain at greu Llyfrgell a Chanolfan Gwasanaethau newydd, lle gall drigolion gael mynediad at ystod eang o wasanaethau'r cyngor i gyd o dan yr un to, yng nghalon ganol tref Caerffili.

Bydd yr adeilad newydd trawiadol yn cynnwys ystod o gyfleusterau a fydd yn buddio pob rhan o'r gymuned. Y prif atyniad bydd llyfrgell, sy'n cynnig ystod o adnoddau ar gyfer pobl o bob oedran gan gynnwys llyfrau, DVD's, cryno ddisgiau, gemau yn ogystal â man cymunedol, mynediad i'r rhyngrwyd a deunyddiau cyfeirnod.

Mae'r prosiect wedi dod o ganlyniad i gyllid oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Llywodraeth Cymru.

Fe wnaeth cynghorwyd hefyd gymeradwyo cynlluniau ar gyfer £10.5 miliwn Canolfan Hamdden £10.5 miliwn ddiweddaraf newydd sbon a fydd yn ffurfio rhan o brosiect datblygu cyfrwng Cymraeg ar gyn-safle Ysgol Gyfun Ilan Sant yng Nghaerffili.

Bydd y prosiect yn gweld datblygiad canolfan hamdden fodern ar y safle, a fydd yn arlwyo ar gyfer ystod lawn o chwaraeon dan do gan gynnwys nofio, arwyneb chwarae ym mhob tywydd, trac rhedeg a chyrtiau tennis neu ardal gemau Aml-ddefnydd.

Dywedodd Cyng. Harry Andrews, Arweinydd y Cyngor, "Rwyf yn croesawu'r prosiectau datblygu cyffrous hyn yn fawr, gan fydd y ddau yn ein galluogi ni i ddarparu cyfleuster modern, mwyaf diweddar i drigolion ardal basn Caerffili."

"Edrych ymlaen at weld y cynlluniau hyn yn parhau i gynyddu dros y misoedd i ddod," ychwanegodd.



■ Canolfan Hamdden Newydd



■ Gweithfeydd Llyfrgell ar Fynd

# Blwyddyn Newydd - Chi Newydd!

Ewch i: www.caerffili.gov.uk/dullbywhamdden




leisurelifestyle
dullbywhamdden

Os yw hynny'n swnio'n gyfarwydd, gadewch i ni eich helpu i gymryd y camau cyntaf tuag at llwyddiant heddiw. Pun ai eich nod yw cael gwared ar y pwysau Nadolig neu wella eich iechyd yn gyffredinol, mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn siŵr o siwtio eich anghenion a gall ein staff cyfeillgar eich helpu i gyrraedd eich nod.

Mae gennym ganolfannau hamdden wedi eu lleoli ar draws y fwrdeistref sirol sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau o nofio i sboncen a hyd yn oed gwersi yn yr ysfa dawnsio 'Bokwa' newydd a 'Kettlesize'! Bydd pecynnau aelodaeth arbennig yn eich caniatáu i ddefnyddio unrhyw un o'n 11 canolfan ac unrhyw un o'n gwasanaethau a gynigir, heb gytundeb cyfnod penodol.

Mae ymuno â'ch canolfan hamdden leol erioed wedi bod yn haws diolch i wefan golwg newydd gyda system archebu ar-lein, mae i gyd ond clic i ffwrdd. Pam na wnewch logio ymlaen i'n gwefan a chael mynediad at ein cystadleuaeth am ddim, drwy ateb cwestiwn syml ar-lein, gallwch ennill aelodaeth tri mis am ddim i'r teulu sy'n werth dros £150.

## Eich Newsline



*"Cynhyrchir Newline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn Newsline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - cewch fersiynau sain a phrint bras o Newsline ar gais."*

**Stephen Pugh - Golygydd** **e-bost:** pughs@caerffili.gov.uk
**Post:** Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

# Etifeddiaeth chwaraeon!

**Yn dilyn llwyddiant y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, bydd deuddeg o glybiau chwaraeon o ar draws bwrdeistref sirol Caerffili wedi cael ei hadnabod fel 'Clybiau Etifeddiaeth' ac mae pob un ohonynt wedi cael eu gwobrwyo gyda £1,500 gan y Bwrdd Gist Gymunedol.**

Hefyd, yn dilyn ymlaen o 'Noson Etifeddiaeth' diweddar a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cafodd clybiau o ar draws y fwrdeistref sirol y cyfle i ddarganfod mwy am gymorth i fusnesau a chyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael iddynt, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddefnydd y cyfryngau cymdeithasol. Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag Andrew Diggle, Swyddog Datblygu Clybiau ar **01443 875 586** - estyniad 2 neu e-bostiwch: diggla@caerffili.gov.uk

## Darganfyddwch beth sy'n digwydd yn eich canolfan hamdden leol...

- **Canolfan Hamdden Bedwas:** Heol Casnewydd, Bedwas. **f: 029 20 852 538**
- **Canolfan Hamdden Caerffili:** Parc Virginia, Caerffili. **f: 029 20 851 845**
- **Heol Waunborfa, Cefn Fforest:** Heol Waunborfa, Cefn Fforest. **f: 01443 830 567**
- **Canolfan Hamdden Heolddu:** Heol y Mynydd, Bargod. **f: 01443 828 950**
- **Canolfan Hamdden Trecelyn:** Heol y Mynydd, Bargod. **f: 01495 248 100**
- **Canolfan Hamdden Tredegar Newydd:** Parc y Llwyni, Tredegar Newydd. **f: 01443 875 586**
- **Canolfan Hamdden Pontllan-fraith:** Heol Coed Cae Ddu, Pontllan-fraith. **f: 01495 224 562**
- **Canolfan Hamdden Rhisga:** Lôn Pontymason, Rhisga. **f: 01633 600 940**
- **Canolfan Hamdden Cenydd Sant :** Heol Cenydd Sant, Caerffili. **f: 029 20 881 448**
- **Canolfan Hamdden Sue Noake:** Heol Pengam, Ystrad Mynach. **f: 01443 813 982**

# Mae sinema ODEON yn dod i Fargod




Sinema aml-sgrin diweddaraf gyda phum sgrin

BIG idea Bargoed
Syniad Mawr Bargod

**Cwmni Odeon yw gweithredwr dewisol y cyngor ar gyfer datblygiad sinema newydd £6miliwn yng nghanol tref Bargod.**

Mae'r datblygiad arfaethedig a hir-ddisgwyliedig yn gyfagos i'r archfarchnad Morrisons newydd ac mae cynlluniau Odeon ar gyfer sinema aml- sgrin gyda phum sgrin sy'n cynnwys y dechnoleg ffilm ddiweddaraf.

Dywedodd yr aelod cabinet dros adfywio, Cyng. Ken James, "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi dewis Odeon ar gyfer y cynllun mawreddog hwn. Odeon oedd y gweithredwr dewisol oherwydd eu bod yn arwain y farchnad ym myd y sinema a'u lansiad sinema newydd llwyddiannus iawn o raddfa debyg yn Llanelli.

Mae'n newyddion gwych i Fargod a bwrdeistref sirol Caerffili. Does dim sinema aml- sgrin gennym ar hyn o bryd o fewn y fwrdeistref sirol a gyda phoblogaeth o bron i 180,000, bydd hyn yn gyfleuster hamdden sydd wir ei angen ar gyfer ein trigolion."

"Rydym yn awr yn edrych ymlaen at y gwaith yn dechrau ar y safle yn dilyn cwblhad y datblygiad manwerthu ac rwy'n siŵr bydd y gymuned gyfan yn croesawu'r newyddion cyffrous hwn," ychwanegodd.

Yn gynnar eleni, fe wnaeth y cyngor gytuno cyllido'r sinema £6miliwn a'r datblygiad manwerthu. Bydd y cyngor yn adeiladu'r sinema ei hun ac wedyn yn ei rhentu i Odeon. Mae Odeon a swyddogion y cyngor yn gweithio ar hyn o bryd i orffen dyluniad y sinema a'r manylion rhentu.

Mae gwaith ar ddatblygiad Morrisons ar fynd gyda'r cwblhad wedi ei gynllunio ym mis Hydref 2013. Mae datblygiad y sinema a'r bwyty yn rhan o Gyfnod 2 o'r cynllun ac yn ategu'r gwaith adfywiad eang sydd yn trawsffurfio canol y dref bresennol.

**www.syniadmawrbargod.co.uk**

# Lansiad ailgylchu batris!

**Mae mwy na 50 ysgol ar draws bwrdeistref sirol Caerffili wedi llofnodi i gymryd rhan yn y Cynllun Ailgylchu Batri 2013, sy'n cynnwys dros 17,500 o ddisgyblion.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llwyfan Ailgylchu Ewropeaidd (ERP), a fydd yn cyflenwi blychau ailgylchu batris ar gyfer pob un o'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Bydd yr ysgolion yn cystadlu â'i gilydd i weld pwy all ailgylchu'r nifer fwyaf o fatris.

Bydd yr ysgolion sy'n perfformio orau yn y gystadleuaeth yn cael eu cydnabod mewn seremoni gwobrwyo arbennig gyda gwobrau ar gyfer yr ysgolion buddugol. Y llynedd ailgylchwyd 1,255 kg o fatris ar draws y 45 o ysgolion a oedd yn cymryd rhan. Lansiwyd y fenter yn Ysgol Iau Hendre yn ddiweddar.

Dywedodd y Cynghorydd David Poole, "Mae'n wych cael cymaint o ysgolion yn cofrestru i gymryd rhan yn y cynllun ailgylchu batris eleni. Hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan am wneud eu rhan i helpu aros ar flaen y gad o ailgylchu yng Nghymru."




Yn ogystal, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu cyfleusterau ailgylchu batris yn ei 6 Canolfan Ailgylchu Gwastraff. Am ragor o wybodaeth am ailgylchu, ewch i **www.caerffili.gov.uk.**

# Helpwch ni i'ch helpu chi




- **Yfe chi yw'r person y mae pobl yn troi ato'n aml am gyngor neu wybodaeth leol?**
- **Oes gennych chi gyfrif e-bost?**
- **Ydych chi'n adnabod pobl yn eich ardal sydd angen ychydig o help a chymorth ychwanegol?**

Os yw'r uchod yn canu cloch, hoffwn eich annog i ymuno â'n rhwydwaith anffurfiol newydd 'cyhoeddwyr tref 50+'. Mae'r rhwydwaith wedi ei ddylunio i'n helpu ni anfon gwybodaeth allan am wasanaethau a chymorth yn eich cymunedau lleol i hysbysu pobl hŷn sydd wir angen ein cyngor a'n cymorth.

Ni fydd angen i chi fynd i unrhyw gyfarfodydd, yr unig beth sydd angen i chi wneud yw rhoi eich cyfeiriad e-bost wrthym a'r ardal rydych yn byw ynddi ac wedyn unwaith y mis, byddwn yn anfon e-bost gyda manylion o ddau wasanaeth gall fod o gymorth i'ch trigolion lleol. Rydym yn gobeithio dros amser, bydd hyn yn adeiladu eich gwybodaeth o ba gymorth sydd allan yna ar gyfer pobl hyn ar draws y fwrdeistref a trwyddo'ch chi, byddwn yn gallu bod yn fwy effeithiol wrth gael gwybodaeth allan i'r rhai hynny sydd ei angen fwyaf.

Os hoffech ymuno â'r rhwydwaith newydd hwn, e-bostiwch neu ffoniwch Hayley Smith ar **01443 864604** neu e-bostiwch hi ar smithh@caerffili.gov.uk

# Coetir Oakdale yn Dathlu Llwyddiant!

**Mae Coetir Cymunedol Oakdale a Phenmaen yn dathlu ar ôl cipio gwobr 'Balchder Bro' eleni am eu cyflawniadau gwyrdd rhagorol.**

Fe wnaeth ysgolion, grwpiau cymunedol a busnesau o bob rhan o'r fwrdeistref sirol fwynhau triniaeth carped coch yn yr ail seremoni wobrwyo 'Balchder Bro.' Mae'r cynllun gwobrau yn cydnabod y rhai sydd wedi mynd cam ychwanegol er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd, gan wneud yr ardal yn lle glanach a gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld.

Bu raid i Goetir Cymunedol Oakdale a Phenmaen gystadlu yn erbyn 34 o ymgeiswyr eraill cyn cael eu coroni fel y pencampwyr 'Balchder Bro', a chawsant eu cyflwyno â gwobr o £1,000.

Dywedodd y Cynghorydd Harry Andrews, "Roedd gwobrau agoriadol Balchder Bro'r llynedd yn llwyddiant mawr, a gwobrau eleni wedi codi'r bar hyd yn oed yn uwch. Llongyfarchiadau i'r enillwyr a'r holl enwebeion; maen nhw yn ysbrydoliaeth i ni i gyd."



**Gwneud yr ardal yn le glanach a gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld.**

### Mae rhestr lawn o enillwyr fel a ganlyn:

| CATEGORI | ENILLYDD |
|---|---|
| **Ewch yn Wyllt!** | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Rhiw'r-perrai |
| **Cadw'r Lle yn Daclus** | The Rock Inn |
| **Busnes Amgylcheddol Gorau** | Rainbow Enterprise |
| **Gwobr Ailgylchu mewn Ysgolion** | Ysgol Gynradd Greenhill |
| **Addysg Amgylcheddol** | Ysgol Gyfun Martin Sant |
| **Byw yn Iach** | Rhandiroedd Cwm Aber |
| **Cludiant Cynaliadwy** | Ysgol Gynradd Deri |
| **Prosiect Cymunedol Gorau** | Grŵp Gweithredu Cymunedol Treffilip |
| **Ardal y Cedwid Orau** | Coetir Cymunedol Oakdale a Phenmaen |
| **Pencampwr Amgylcheddol Ifanc** | Alun Mountjoy |
| **Pencampwr Amgylcheddol** | Jess Amos |
| **Pencampwyr Balchder yn eich Bro 2012** | **Coetir Cymunedol Oakdale a Phenmaen** |

Balchder Bro

**Gallwch weld lluniau o'r digwyddiad ar safle we Flickr y Cyngor sef: www.flickr.com/photos/caerphillycbc**

# Ffatri celfi "Wyrdd" yn Rhymni

**Wyt ti'n edrych am soffa newydd neu ddyfais drydanol, ond ar gyllideb gyfyng? Neu efallai hoffech i'ch hen gelfi mynd i ddefnydd da?**

Mae unrhyw un sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili yn gallu defnyddio'r fenter gelfi cymunedol yn Rhymni. Mae'r fenter yn ailwampio celfi ac eitemau trydanol ail law i werthi ymlaen ar brisiau gostyngol.

Yn agored i bobl o bob cefndir, un ai mewn gwaith, ar incwm isel neu ar fudd-daliadau, mae yna ystod eang o gelfi a nwyddau gwyn o ansawdd dda am bob ystafell yn y cartref ar gael yn yr arddangosle yn Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni.

Mae'r fenter celfi cymunedol yn ddibynnol ar y cyhoedd a threfnir casgliadau o eitemau diangen y cartref o breswylwyr a fydd wedyn yn cael eu hailwampio a'u hailwerthu.

A wnewch unrhyw un sydd eisiau cyfrannu, ffonio 01685 846830, ond gwiriwch fod y dodrefn â chlustogau wedi eu labelu gyda'r datganiad perthnasol ei fod wedi pasio'r rheoliadau diogelwch tân a bod offer trydanol yn gweithio yn iawn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu dodrefn o'r fenter ymwelwch â **www.community-furniture.co.uk** er mwyn gweld yr eitemau niferus ar gael neu ewch i'r siop. Amserau agor Dydd Llun - Iau 8.30am-4.30pm Gwener 8.30am - 4pm. Rheolir y fenter celfi cymunedol gan Groundwork Caerffili mewn partneriaeth â'r cyngor.

GROUNDWORK CAERPHILLY CAERFFILI

# Fideo baeddu cŵn yn creu drewdod!

**Mae ymgyrch didrugaredd yn anelu at fynd i'r afael gyda'r lleiafrif anystyriol sy'n gadael eu cŵn i faeddu mewn mannau cyhoeddus yn achosi cynnwrf.**

Mae'r cyngor yn cymryd agwedd diffwdan i'r baeddu cŵn a taflu sbwriel dan sylw a wedi cynhyrchu clip ffilm graffig byr yn amlygu y peryg i iechyd o baeddu cŵn yn cael ei adael yn ein parciau, caeau chwarae a mannau cyhoeddus.

"Mae'r clip byr yn dangos y problemau y gall baw ci achosi - yn enwedig i blant ifanc a chwaraewyr chwaraeon gan ddefnyddio ein caeau chwarae" meddai aelod cabinet Cyng. David Poole.

Cynhyrchwyd y fideo gan Zipline Media y tîm BAFTA Cymru buddugol



Gellir gweld y clip ffilm ar **www.youtube.com/caerphillycbctv**

sydd wedi'u lleoli yn y fwrdeistref sirol ac sydd tu ôl i gynyrchiadau adnabyddus megis "Rhod Gilbert's Work Experience."

Mae'r clip ffilm yn rhan o ymgyrch ehangach y cyngor o'r enw "Budr, Gywilyddus, Hunanol" ac fe'i cynlluniwyd i annog pobl i lanhau eu llanast ac i annog y lleiafrif anystyriol sy'n teimlo ei bod yn dderbyniol i taflu sbwriel neu fethu â glanhau ar ôl eu cŵn.

Rydym yn gwerthfawrogi bod y rhan fwyaf o berchnogion cŵn yn gyfrifol, ond rydym am i dargedu'r ychydig anystyriol sy'n difetha ein mannau agored ac yn achosi peryglon iechyd difrifol i'r cyhoedd. Nid ydym yn ymddiheuro am yr ymgyrch drawiadol ac yn gobeithio y bydd yn cael effaith wirioneddol", ychwanegodd y Cynghorydd Poole.

I roi gwybod am droseddwyr o faw cŵn, sbwriel ac unrhyw drosedd amgylcheddol arall ym mwrdeistref sirol Caerffili, cysylltwch â Balchder Stryd Caerffili ar **01443 866 566** neu ewch i **www.caerffili.gov.uk/balchderstryd**

# Gwelliannau yn parhau yn y 'Stiwt!'

**Mae gweithfeydd gwella yn Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn parhau, wrth i'r prosiect gyrraedd ei ail gyfnod.**

Gwelodd cyfnod un o weithfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili cymeradwyaeth rhaglen gwerth £750,000 o atgyweiriadau i drawsnewid yr adeilad boblogaidd iawn.

Cafodd £600,000 pellach ar gyfer 2012/13 ei neulltio ar gyfer cwblhau cyfnod dau, gyda nifer o'r gweithfeydd fel rhan o'r cyfnod hwn yn barod yn mynd yn eu blaen.

O fis Ionawr, bydd yr awditoriwm ar gau am ugain wythnos wrth i ddau estyniad gael eu hychwanegu i'r ardaloedd cefn. Bydd y gweithfeydd yn cynyddu lle yn yr ystafell gwisgo, cynyddu man storio seddi a chyfarpar technegol, gwella llety swyddfa dechnegol a bydd tai bach tu cefn i'r llwyfan a chawodydd yn cael eu gosod.

Mae cynlluniau pellach ar gyfer cyfnod dau i ailwampio'r tai bach cyhoeddus yn yr awditoriwm a gwneud y tŷ bach i bobl anabl yn cydymffurfio gydag anghenion deddfwriaeth Anabledd, yn ogystal ag ychwanegu at arwydd allanol newydd i'r adeilad.

Dywedodd Cyng. Ken James, Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Chynaladwyedd, "Mae Sefydliad y Glowyr Coed Duon nid yn unig yn darparu adloniant o'r radd uchaf i drigolion y fwrdeistref sirol a thu hwnt, ond mae hefyd yn lleoliad pwysig ar gyfer dosbarthiadau dysgu a chymorth addysgol i blant. Mae'r gweithfeydd gwella sy'n cael ei ymgymryd hyd yma wedi bod yn wych, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr i weld ail gyfnod y gweithfeydd bron a gorffen dros y misoedd i ddod."

Er bydd yr awditoriwm ar gau, bydd Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn parhau i ddarparu adloniant o ansawdd uchel i gwsmeriaid, drwy raglenni digwyddiadau i mewn i Neuadd Gweithwyr Bedwas. Bydd hyn yn fesur dros dro nes ei fod yn cael ei ailagor.

Bydd y 'Stiwt yn parhau ar agor fel arfer. Gallwch ddal archebu tocynnau o'r swyddfa docynnau, a bydd yr holl weithfeydd a dosbarthiadau dal yn rhedeg fel arfer. Bydd y Bar Navigation hefyd yn cael ei ddefnyddio fel man perfformio.

**Am wybodaeth bellach ar sioeau i ddod, neu i archebu tocynnau, cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01495 227 206 neu ewch i www.blackwoodminersinstitute.com**



# Gwasanaeth Ar-lein i Deuluoedd

**Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynnig amrediad cyflawn o wybodaeth o ansawdd i deuluoedd sy'n byw neu'n gweithio yn y fwrdeistref sirol.**

I gyd-fynd gyda'r llinell cymorth ddwyieithog ar 01443 863232, rydym yn lansio Cyfeirlyfr Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd newydd ar-lein, sy'n cynnig mynediad i wybodaeth mewn un lle i'r holl drigolion sydd eu hangen. Os ydych yn rhiant, yn blentyn neu yn eich arddegau, neu'n berson proffesiynol yn gweithio gyda phlant, mae yna ddetholiad o wybodaeth ar y wefan newydd.

## Prif nodweddion y Cyfeirlyfr Gwasanaethu Gwybodaeth i Deuluoedd ar-lein yn cynnwys:

- Adran y Teulu i Rieni a Gofalyddion - gwybodaeth am ofal plant, magu plant, gwasanaethau iechyd a chymorth y teulu.
- Adran Ieuenctid i 11-25 oed – gwybodaeth am glybiau lleol, gweithgareddau a gwasanaethau i bobl ifanc.
- Adran i Blant 5-10 oed – gwybodaeth am glybiau lleol, gweithgareddau a phethau i wneud.
- Adran Broffesiynol i Athrawon, gweithwyr Gofal Plant a phobl sy'n gweithio gyda theuluoedd. Yn yr adran hon cewch fanylion cyswllt a gwybodaeth a, wasanaethau i deuluoedd.
- Adran Llyfrgell - Mae'r adran newydd hon yn ddiddorol ac yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn darparu testun siarad, cliciwch yn yr adran llyfrgell a dewis pa lyfr yr hoffech ei glywed, eisteddwch yn ôl, ymlacio a bydd y llyfryn yn cael ei ddarllen i chi!

Mae'r Wybodaeth i Deuluoedd wedi gwneud ychydig o newidiadau brandio, ond yn parhau i gynnig gwasanaeth personol i helpu i ddod o hyd i'r gofal plant cywir, gweithgareddau, cymorth a gwasanaethau mae teuluoedd eisiau.

**Mae gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd cyfeiriad newydd hefyd:**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd,
Tŷ Penallta, Parc Tredomen,
Ystrad Mynach, Hengoed,
CF82 7PG. Ffôn: (**01443 86 32 32**)
ggid@caerffili.gov.uk
**www.caerffili.gov.uk/ggid**

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

# Mentrau Mentrus!

**Mae mentrau cymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael eu cydnabod am eu cyfraniad i'r gymuned mewn dwy seremoni wobrwyol.**

Ym mis Tachwedd, fe wnaeth Green Cap, sydd wedi ei lleoli yng Nghaerffili, ennill y wobr ar gyfer Menter Gymdeithasol y Flwyddyn yng Ngwobrau Busnes Caerffili a chafodd Menter Gymunedol Rainbow, sy'n seiliedig yn Rhymni, ei henwi yn Fusnes Amgylcheddol Gorau yng Ngwobrau Balchder Bro.



Mae pob un o'r cwmnïau yn darparu gwasanaethau sy'n buddio'r gymuned yn hytrach na materion elw neu werthiannau. Mae Green Cap yn cynnig cyflogaeth a phrofiad gwaith ar gyfer unigolion anabl a'r rhai sydd â phroblemau cymdeithasol-heriol trwy ailwampio, ail-glustogi a chlirio celfi o eitemau dodrefnu amrywiol yn y sector masnachol tra bod Rainbow yn achub beiciau sydd wedi cael eu gadael, ailwampio a'u gwerthu i'r gymuned am brisiau fforddiadwy. Maent hefyd yn cynnig gwasanaethau atgyweirio, hyfforddiant a chynllun llogi beic o fewn ardal Cwm Rhymni Uchaf.

Dywedodd y Cynghorydd Ken James, Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, "Mae'r cyngor yn cydnabod y rôl bwysig y mae menter gymdeithasol yn chwarae o fewn adfywio ein cymunedau. Maent yn darparu gwir gyfleoedd i drigolion yn ein bwrdeistref sirol trwy swyddi a chynhyrchion fforddiadwy, gan gefnogi'r economi lleol yn effeithiol."

Fe wnaeth Green Cap a Rainbow dderbyn cyllid grant yn gynharach eleni o'r Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol ynghyd â thair menter gymdeithasol arall yn y fwrdeistref sirol, gan wneud cyfanswm o £924,000 gan greu 22 swydd.

Mae'r Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol yn darparu mewn partneriaeth gan gonsortiwm Awdurdod Lleol 6 cwm sef: Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae'r rhaglen DEC wedi ei gefnogi gan Gronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru.



# Cefnogi anabledd dysgu

**Mae'r strategaeth integredig cyntaf ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu ar draws Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen wedi cael ei ddatblygu.**

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, mae'r fersiwn diwygiedig o'r Strategaeth Anabledd Dysgu nawr ar gael ac yn barod i fynd i'r cyfnod gweithredol.

Pwrpas y strategaeth newydd yw i ddarparu cyfeiriad clir yn ymwneud â chynllunio'r dyfodol a darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion sydd ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth.

Mae'r ddogfen yn disgrifio'r egwyddorion craidd sy'n sylfaenol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac yn amlinellu'r materion allweddol sydd angen mynd i'r afael iddynt yn y blynyddoedd i ddod er mwyn darparu ansawdd uchel, diogel a gwasanaethau cost effeithiol.




**Gallwch ddod o hyd i'r strategaeth ar www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â Rheolwraig y Rhaglen Karen Morris ar 01443 864528.**

# Help a Chyngor ar gael

**Mae tîm Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor yn cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau yn cynnig cyngor a gwybodaeth am y gwasanaethau craidd sy'n cael ei ddarparu yn y fwrdeistref.**

Mae'r llyfrynnau a chyhoeddiadau yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Cymorth i Oedolion a Phlant, Canolfannau Dydd, Cartrefi Preswyl, Cyngor i Ofalyddion a nifer mwy. Mae cyhoeddiadau ar gael ar gais ac yn cael eu darparu am ddim. Gallwch hefyd wneud trefniadau i gasglu nhw o brif dderbynfa'r cyngor yn Nhŷ Penallta, Tredomen. I weld y rhestr o'r cyhoeddiadau sydd ar gael i chi ewch i'n gwefan **www.caerffili.gov.uk/gofalcymdeithasol**. Os ydych am wneud cais am unrhyw wybodaeth o'r rhestr cysylltwch â Gareth Jones Swyddog Gwybodaeth ar **01443 864667** neu e-bostiwch: jonesg13@caerffili.gov.uk.










## Rydym yn Symud!

**Mae pedwar thîm o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor wedi symud i leoliad newydd yn Lôn y Llwynogod yn Oakdale.**

Mae'r timoedd sydd wedi symud fel a ganlyn:

- Tîm Cyswllt a Chyfeirio
- Tîm O Gwmpas y Teulu
- Tîm Lleoli Teulu
- Tîm Dyletswydd a Gwybodaeth Gwasanaethau Oedolion

**Os ydych am gysylltu gydag un o'r timoedd hyn, defnyddiwch y cyfeiriad post dilynol:**
3 Lôn y Llwynogod, Parc Busnes Oakdale, Oakdale, NP12 4AB

# Plant yn cael dechrau'n deg!

**Mae'r cyngor yn ymrwymedig i ddarparu'r lefelau gorau posibl o gymorth i blant ifanc ac mae ein canlyniadau Cyfnod Sylfaen gwych diweddar wedi dangos gwelliant clir yn y canlyniadau.**

Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar blant, sy'n seiliedig ar chwarae ar gyfer plant 3-7 oed. Yng Nghaerffili, rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant eang i staff ac ysgolion sy'n cael cymorth gyda chanllaw ymarferol i ysgolion. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, bydd asesiad yn cael ei wneud o allu'r plentyn, gyda'r canlyniad disgwyliedig sef Canlyniad 5 neu uwch. Yn 2012, y canran o blant sy'n cyrraedd Canlyniad 5 o Gyfnod Sylfaen neu uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghaerffili hefyd wedi cael nifer o lwyddiannau ac yn rhaglen arall o Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd am fywyd gwell ar gyfer ein plant a'n teuluoedd. Mae'n cael ei ddarparu trwy bartneriaeth o'r Cyngor, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a'n partneriaid yn y sector gwirfoddol. Mae Dechrau'n Deg yn rhoi cymorth i deuluoedd gyda phlant 0-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Maent yn cael mynediad at raglenni iechyd, cymorth i deuluoedd, datblygiad iaith gynnar a gofal plant ar gyfer plant 2-3 oed.

Dros y 4 blynedd diwethaf, mae 1,265 o blant y flwyddyn 0-3 oed wedi cael eu cefnogi a disgwylir hyn i godi i 2,246 o blant y flwyddyn erbyn 2014-15. Mae'r cymorth hyn yn anelu at wella canlyniadau hir dymor i blant a gwella cyrhaeddiad yn yr ysgol. Erbyn 2014-15, bydd y rhaglen ar gael mewn 9 ardal ychwanegol, gan roi cyfanswm o 19 ardal ar draws y fwrdeistref sirol. Mae Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf, a Theuluoedd yn Gyntaf fel rhan o'r tîm Blynyddoedd Cynnar, i gyflenwi'r dosbarthiad a chael mynediad at ddarpariaeth i deuluoedd ar draws y fwrdeistref.

**Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y rhaglen Dechrau'n Deg Caerffili ar:**

**www.caerffili.gov.uk/dechrau'n deg**



chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
dechrau'n deg • flying start



Useful Numbers / Rhifau Defnyddiol

# Useful Numbers / Rhifau Defnyddiol

**MAIN SWITCHBOARD** PRIF SWITSFWRDD
☎ 01443 815588

**Minicom** Minicom
☎ 01443 873626

**Emergency number for all services:** Rhif argyfwng ar gyfer pob gwasanaeth:
☎ 01443 875500
(Out of hours only • Allan o Oriau yn unig)

**Adult's Social Services** Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
☎ 0808 100 2500

**StreetPride** BalchderStryd
☎ 01443 866566

**Children's Social Services** Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
☎ 0808 100 1727

**Consumer Advice** Cyngor i Ddefnyddwyr
☎ 01495 235111

**Council Tax Enquiries** Ymholiadau Treth y Cyngor
☎ 01443 863002

**Furniture Recycling** Ailgylchu Dodrefn
☎ 01685 846830

**Housing & Council Tax Benefits** Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor
New Claims: Hawliau Newydd: 01443 866567
Existing Claimants: Hawlwyr Newydd: 01443 864099

# PROTECTING YOU

**The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe & fair place for people to live, work & visit.** One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

**Below are examples of recent prosecutions:**

| Defendant & Offence | Court Decision |
|---|---|
| **Clive Andrew Bayliss of Treowen.** *Advertising and selling vehicles on the side of the road and on-line, in the course of a business without disclosing fact he was a motor trader.* *29 October 2012 at Abergavenny Magistrates Court.* | £2000 fine, £1319.92 costs to the Local Authority and £15 victim surcharge. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008. |
| **Wayne Francis Jones of Bargoed.** *Sale of fireworks without a licence and illegal storeage of fireworks.* *22 October 2012 at Abergavenny Magistrates Court.* | 12 months conditional discharge, £563.95 costs to the Local Authority and forfeiture of fireworks. Firework Regulations 2004. Manufacture and Storage of Explosives Regulations 2005. |
| **Thomas Benjamin & George Benjamin trading as Bramley Motors, Risca.** *Supply of a dangerous motor vehicle.* *22 October 2012 at Caerphilly Magistrates Court.* | T Benjamin - £700 fine, £230 costs to the Local Authority, £97.50 compensation to consumer and £15 victim surcharge. G Benjamin - £700 fine, £230 costs to the Local Authority, £97.50 compensation to consumer and £15 victim surcharge. General Product Safety Regulations 2005. |
| **Joanne Nicholas, Ynys Las, Nelson.** *Breaching the provisions of the Dogs (Fouling of Land) Act 1996 Section 3 & 4 at Maes- yr-Onen, Nelson on the Maes Mabon housing estate.* *Proved guilty in the absence of the defendant at Abergavenny Magistrates Court on 27th October 2012.* | £400 fine, £85 costs, £15 Victim surcharge, whereby a 14-day collection order was made. The Dogs (Fouling of Land) Act 1996 Sections 3 & 4. |
| **Kameron Maddocks, Bright Street, Crosskeys.** *Dropping litter under the Environmental Protection Ac 1990 Section 87 at Waunfawr Park Road, Crosskeys on the 26th April 2012.* *The case was held at Abergavenny Magistrates Court on 22nd October 2012.* | The defendant was found guilty and fined £400, ordered to pay costs of £85 and a victim surcharge of £15. Environmental protection act 1990 section 87. |

**To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

# What's ON / Digwyddiadau

**www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau**

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk • Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

## Big Garden Bird Event • Digwyddiad Adar yr Ardd Fawr

**26/01/2013 - 11am**

*Parc Cwm Darran • Parc Cwm Darran*



*Learn about the many different birds at Parc Cwm Darran, whilst making bird boxes, bird feeders, exploring the park with our bird watch leaders. See birds close up with our bird ringing sessions. A small donation will be gratefully received for the bird box and bird feeder making. Event is weather dependant.*

*Dysgwch am y nifer o adar gwahanol ym Mharc Cwm Darran, wrth wneud bocsys adar, bwydwyr adar, archwiliwch y parc gyda'n harweinwyr gwylio adar. Gallwch weld adar yn agos gyda'r sesiynau canu adar. Byddwn yn gwerthfawrogi cyfraniad bach ar gyfer y bocs adar a gwneud bwydwyr adar. Mae'r digwyddiad yn dibynnu ar y tywydd.*

**01495 235219**

## Gelligaer Historical Society • Cymdeithas Hanesyddol Gelligaer

**30/01/2013 - 7pm**

*Llancaiach Fawr Manor House • Maenordy Llancaiach Fawr*

*These monthly meetings held on last Wednesday of the month take the form of a talk and question/answer session on topics of history or heritage interest followed by tea/coffee. Visit **www.gelligaerhistoricalsociety.co.uk** for details of the topics. They are open to members and non-members. Annual membership of Gelligaer Historical Society is £10. GHS welcomes non-members to meetings but we ask a contribution (£2).*

*Mae'r cyfarfodydd misol hyn a gynhelir ar y dydd Mercher olaf o'r mis ar ffurf darlith a sesiwn cwestiwn/ateb ar bynciau hanes neu ddiddordeb treftadaeth wedi eu dilyn gan baned o de/coffi.Ewch i **www.gelligaerhistoricalsociety.co.uk** am fanylion o'r testunau. Maent ar agor i aelodau a phobl nad ydynt yn aelodau. Mae aelodaeth flynyddol o Gymdeithas Hanesyddol Gelligaer yn £10. Mae CHG yn croesawu pobl nad ydynt yn aelodau i gwrdd ond rydym yn gofyn am gyfraniad (£2).*

## Llancaiach Fawr Manor House



# Ghost Tours

**Fridays & Saturdays**
**7.30pm & 8.30pm**

£13.50 per person



Are you brave enough? Tour round the Manor by candlelight to hear true stories of the uncanny things that have happened to staff and visitors over the years. Places must be pre booked.

Ydych chi'n ddigon dewr? Ewch ar daith o amgylch y Maenordy i olau cannwyll i glywed storïau gwir o'r pethau rhyfedd sydd wedi digwydd i staff ac ymwelwyr dros y blynyddoedd. Rhaid i lefydd gael eu harchebu o flaen llaw.

# Teithiau Ysbrydion

**Bob dydd Gwener a Dydd Sadwrn 7.30pm a 8.30pm**

£13.50 y person

01443 412248 • www.llancaiachfawr.co.uk



## Where the Wild Things Are • Ble mae'r pethau Gwyllt

**13/02/2013 - 2pm**

*Aberbargoed Grasslands Education Centre • Canolfan Addysg Glaswelltiroedd Aberbargod*

*Come and listen to stories in the woods around a warm fire. You'll also be able to create your own clay "wild things."*

*Dewch a gwrando ar storïau yn y goedwig o amgylch tan boeth. Byddwch hefyd yn gallu credu clai eich hun "pethau gwyllt."*

**01443 834317**



## Easter Kipsie Basket Making • Creu Basged Pasg Cipsi

**23/03/12 - 11am**

*Parc Cwm Darran • Parc Cwm Darran*

*Have a go at making a kipsie flower basket. Activity takes about 20 minutes . Charge of £ 2 per basket. Booking required for this event.*

*Ceisiwch wneud basged o flodau cipsi. Mae gweithgareddau yn cymryd tua 20 munud. Tâl o £ 2 y fasged. Mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn.*

**01443 875557**

## Your county needs you! • Mae'r cyngor eich angen!

**Social Services needs volunteer drivers to help vulnerable service users travel throughout the borough.**

The service is offered to both Adults and Children when it is not possible or feasible for them to use their own transport, this can be for appointments or social outings.

Volunteer drivers must be over 25 and hold a full driving licence for the class of vehicle being driven. Ideally they need a 4-door car to allow easy access for those with mobility problems. This is an extremely worthwhile volunteering cause, enabling those in need to be able to continue enjoying day to day activities that we may take for granted. If you would like to volunteer and feel you have the necessary skills please contact Wendy Herbert on 01495 235385.

**Mae angen gyrwyr gwirfoddol ar Wasanaethau Cymdeithasol i helpu defnyddwyr bregus eu gwasanaethau i deithio trwy'r fwrdeistref.**

Cynigir y gwasanaeth i Blant ac Oedolion pan na fydd hi'n bosibl neu'n ymarferol iddynt i ddefnyddio trafnidiaeth eu hunain, gall hyn fod ar gyfer apwyntiadau neu wibdaith gymdeithasol.

Rhaid i yrwyr gwirfoddol fod dros 25 a dal trwydded yrru llawn am y fath o gerbyd maent yn gyrru. Yn ddelfrydol mae angen car gyda 4 drws i ganiatáu mynediad rhwydd i rai gyda phroblemau symudedd. Mae hyn yn achos gwirfoddoli gwerthfawr, yn galluogi'r rhai mewn angen i allu parhau i fwynhau gweithgareddau dydd i ddydd y gall eraill gymryd yn ganiataol. Os hoffech wirfoddoli a theimlo fod gennych y sgiliau priodol cysylltwch â Wendy Herbert ar 01495 235385.

## Council Tax Benefit changes on the way



**From 1st April 2013 Council Tax Benefit becomes Council Tax Reduction. You may have heard about the UK Government's plans to reform the welfare and benefits system from April 2013.**

Council Tax Benefit is one of the benefits that will be affected by the changes and from 1st April 2013, the responsibility for helping people with their council tax bills is being transferred to the Welsh Government. We are working with the Welsh Government to develop a new scheme to replace Council Tax Benefit in Wales and have written to all those currently receiving benefit to outline the changes as part of a consultation exercise.

**Benefits: 01443 864099 or e-mail: benefits@caerphilly.gov.uk**
**Council Tax: 01443 863002 / 863004 or e-mail: counciltax@caerphilly.gov.uk.**

## Newidiadau Budd-dal Treth y Cyngor ar y ffordd

**O'r 1af o Ebrill 2013 bydd Budd-dal Treth y Cyngor yn mynd yn Lleihad Treth y Cyngor. Efallai eich bod wedi clywed am gynlluniau Llywodraeth DU i ddiwygio'r system lles a budd-daliadau o Ebrill 2013.**

Mae Budd-dal Treth y Cyngor yn un o'r budd-daliadau a fydd yn cael ei effeithio gan y newidiadau ac o'r 1af o Ebrill 2013, mae'r cyfrifoldeb o helpu pobl gyda'u biliau treth y cyngor yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun newydd i gymryd lle Budd-dal Treth y Cyngor yng Nghymru ac wedi ysgrifennu i'r rhai hynny sy'n derbyn budd-dal ar hyn o bryd i amlinellu'r newidiadau fel rhan o ymarfer ymgynghoriad.

**Budd-daliadau: 01443 864099 neu e-bost: budd-daliadau@caerffili.gov.uk Treth y Cyngor 01443 863002 / 863004 neu e-bost: trethycyngor@caerffili.gov.uk.**

# FOSTER APPEAL

**The Council needs foster carers to care for children over the age of 10.**

We offer extensive support, comprehensive training and attractive fees. If you have room in your home and time in your life, why not call 0800 587 5664 or visit **www.caerphilly.gov.uk/fostering**

# APÊL MAETHU

**Mae angen gofalyddion maethu ar y Cyngor i ofalu am blant dros 10 blwydd oed.**

Rydym yn cynnig cymorth, hyfforddiant cynhwysfawr a thaliadau deniadol. Os oes gennych le yn eich cartref ac amser yn eich bywyd, foniwch 0800 587 5664 neu ewch i **www.caerffili.gov.uk/maethu**

# EICH DIOGELU CHI

**Gwaith tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw, gweithio ac ymweld.** Un o dasgau allweddol y tîm yw datgelu a dod gerbron y llysoedd yr unigolion a'r busnesau rydym yn darganfod sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.

**Isod mae enghreifftiau o erlyniadau diweddar:**

| Enw'r Diffynnydd a Manylion o'r Drosedd | Penderfyniad y Llys |
|---|---|
| **Clive Andrew Bayliss o Dreowen.** *Hysbysebu a gwerthu cerbydau ar ochr y ffordd ac ar-lein, yn ystod busnes heb ddatgelu ffaith ei fod yn fasnachwr moduron.* *Hydref 29, 2012 yn Llys Ynadon y Fenni.* | £2000 dirwy, £1319.92 o gostau i'r Awdurdod Lleol a £15 o ordal dioddefwr. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008. |
| **Wayne Francis Jones o Fargod.** *Gwerthu tân gwyllt heb drwydded a storio anghyfreithlon o dân gwyllt.* *Hydref 22, 2012 yn Llys Ynadon y Fenni.* | 12 mis ryddhad amodol, £563.95 costau i'r Awdurdod Lleol a fforffedu'r tân gwyllt. Rheoliadau Tân Gwyllt 2004. Rheoliadau Gweithgynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005. |
| **Thomas Benjamin a George Benjamin yn masnachu fel Bramley Motors, Rhisga.** *Cyflenwi cerbyd modur peryglus.* *Hydref 22, 2012 yn Llys Ynadon Caerffili.* | T Benjamin - £700 dirwy, £230 costau i'r Awdurdod Lleol, £97.50 iawndal i'r prynwr a £ 15 o ordal dioddefwr. G Benjamin - £700 dirwy, £230 costau i'r Awdurdod Lleol, £97.50 iawndal i'r prynwr a £ 15 o ordal dioddefwr. Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005. |
| **Joanne Nicholas, Ynys Las, Nelson.** *Torri darpariaethau Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 Adran 3 a 4 ym Maes-yr-Onnen, Nelson ar ystâd tai Maes Mabon.* *Profwyd yn euog yn absenoldeb y diffynnydd yn Llys Ynadon y Fenni ar 27 Hydref, 2012.* | £400 dirwy, £85 costau, £15 gordal dioddefwr lle cafodd gorchymyn casglu 14 diwrnod ei wneud. Deddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996 Adran 3 a 4. |
| **Kameron Maddocks, Bright Street, Crosskeys.** *Gollwng sbwriel dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Adran 87 yn Heol Parc Waunfawr, Crosskeys ar Ebrill 26ain 2012.* *Cafodd yr achos ei gynnal yn Llys Ynadon y Fenni ar 22 Hydref, 2012.* | Roedd y diffynnydd yn euog a chafodd ddirwy o £400, gorchymyn i dalu costau o £85 a thâl ychwanegol dioddefwr o £15. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 adran 87. |

**I weld y rhestr lawn, ewch i www.caerffili.gov.uk/erlyniadau**
Darperir canlyniadau erlyn am gyfnod cyfyngedig i hyrwyddo natur agored camau'r cyngor i drigolion lleol. Rhaid peidio ag ail-ddefnyddio'r wybodaeth a darperir mewn unrhyw ffordd heb gytundeb CBSC.


For more news visit www.caerphilly.gov.uk/news • Am fwy o newyddion ymwelwch â www.caerffili.gov.uk/newyddion